# Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024

**2024 dsc 2**

## RHAN 2

SEINWEDDAU

*Mapiau sŵn strategol a chynlluniau gweithredu ar sŵn*

### 27 Pŵer i newid cylchoedd ar gyfer gwneud mapiau sŵn strategol ac adolygu cynlluniau gweithredu ar sŵn

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio rheoliad 7 o Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 (O.S. 2006/2629) (dyletswydd Gweinidogion Cymru i wneud, adolygu a diwygio mapiau sŵn strategol) er mwyn newid yr ysbeidiau a bennir am y tro gan baragraff (2) o'r rheoliad hwnnw fel yr ysbeidiau y mae rhaid gwneud a mabwysiadu mapiau sŵn strategol arnynt.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio rheoliad 17 o Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 (dyletswydd Gweinidogion Cymru i lunio, adolygu a diwygio cynlluniau gweithredu) er mwyn newid y cyfnod a bennir am y tro gan baragraff (3)(b) o'r rheoliad hwnnw fel y cyfnod y mae rhaid cynnal adolygiadau o gynllun gweithredu ynddo.